# Crash

## Sera Moore Williams

Mae Els yn cael pob gofal a chariad gan ei rhieni ond mae'n ysu am ryddid, a bywyd mwy cynhyrfus. Mae Wes yn byw bywyd annibynnol, heb na gofal na chariad gan ei rieni.

Ar ôl i Els a Wes ddisgyn mewn cariad mae bywydau'r ddau yn newid yn gyflym iawn, gan arwain Rhys, ffrind ffyddlon Elin, i wneud penderfyniad sy'n rhoi ei fywyd yntau yn y fantol.

'Mae "crash" yn golygu mwy nag un peth ym myd Sera Moore Williams – awdur a chyfarwyddwraig drama newydd i bobl o bob oed. Mae'n golygu "crashio" yn nhŷ ffrind ar ôl noson ar y cwrw, "crash" cyfrifiadur sy'n colli eich gwaith cartref hollbwysig, "crash" car a bywydau'n cael eu dryllio i grash-gyfeiliant tonnau'r môr.'

*Meleri Wyn James*




**Sera Moore Williams**

Cafodd Sera ei magu yng Nghaernarfon a'r Wyddgrug ac am fwy nag ugain mlynedd bu'n byw yn Aberystwyth. Mae'n ddramodydd a chyfarwyddwraig ac erbyn hyn yn Gymrawd Drama ym Mhrifysgol Morgannwg ac yn byw yng Nghaerdydd. Mae Sera wedi ysgrifennu nifer mawr o ddramâu ond wedi canolbwyntio ers sawl blwyddyn ar ddramâu i bobl ifanc. Mae ei dramâu eraill ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys *Conffeti*, *Riff* a *Mwnci ar Dân*.

**Dyluniwyd gan:** Ceri Jones, stiwdio@ceri-talybont.com
**Clawr blaen:** Rhiannon Morgan yn chwarae rhan Els
**Llun y clawr gan:** Andy Freeman
**Llun yr awdur gan:** Saran Freeman

@ebol
www.atebol.com

ISBN 9781907004162
9 781907 004162 >



**Trefn yr arholiad**

**A. Byw yn Gymraeg** **[20]**

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu trafod y meysydd canlynol ar ôl ymwneud â nhw'n rheolaidd yn ystod y cwrs:

- y Gymraeg yn y gymdeithas
- ymweliadau gan siaradwyr gwadd
- darlledu ar y we fyd eang
- y cyfryngau cymdeithasol
- y theatr
- ffilmiau Cymraeg
- newyddiaduraeth Gymraeg gan gynnwys cylchgronau, Y Cymro, Golwg, Lingo, papurau bro

**B. Trafod drama** **[30]**

Sera Moore Williams: *Crash*

Gall yr arholwr ofyn i'r ymgeiswyr ymdrin â rhai o'r pynciau a ganlyn:

- dadansoddi cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- manylu ar olygfeydd allweddol
- damcaniaethu ynglŷn â bwriadau'r dramodydd
- manylu ar y themâu a geir yn y ddrama
- mynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith

Bydd rhyddid i'r ymgeiswyr ymateb yn bersonol yn ogystal â thrafod dehongliadau eraill (disgyblion eraill, athrawon a beirniaid llenyddol) a dylid eu hyfforddi i ddyfynnu a defnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth yn briodol.

**C. Ymateb i gwestiynau ar themâu penodol fydd yn y gwahanol destunau a astudiwyd yn ystod y cwrs cyfan. (Cwestiwn synoptig)** **[25]**

Bydd yr arholwr yn gofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr a fydd yn mynnu eu bod yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y gwahanol destunau ar draws y fanyleb.

Gellir trafodir y themâu canlynol:

Teulu
Perthynas
Cyfrifoldeb
Cariad
Cyfathrebu

Arholir yr ymgeiswyr yn unigol yn Adran C.
Bydd gan CBAC yr hawl i newid y ddrama a astudir. Rhoddir rhybudd digonol pan wneir hynny.

© WJEC CBAC Cyf.

## A. Byw yn Gymraeg

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth gan yr arholwr.

Ydych chi wedi cael y cyfle i weld cyflwyniad theatrig yn ystod y cwrs?
Faint o Gymraeg ydych chi'n ei glywed yn eich ardal chi?

## B. Trafod Drama *Crash*

Enghreifftiau o gwestiynau posibl gan gynnwys rhai awgrymiadau ar sut i ymateb iddynt.

**1. Trafodwch gymeriad Els (Elin).**

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- ei magwraeth a'i chefndir
- ei pherthynas â'i rhieni
- ei chymeriad hunanol
- dylanwad Wes arni
- ei chyfeillgarwch â Rhys
- y temtasiynau sy'n ei hwynebu
- ei bwriadau mewn bywyd
- ei phersonoliaeth oriog
- ei datblygiad yn y ddrama a'i pherthynas â'r ddau fachgen

**2. Manylwch ar y themâu a amlygir yn y ddrama.**

Byddai disgwyl i'r ymgeiswyr drafod:

- gwreiddiau
- cyfrifoldeb
- gofidiau pobl ifanc yn eu harddegau
- dylanwad cyfoedion
- gwrthryfela ieuenctid
- effaith alcohol a chyffuriau
- tyndra rhwng cymeriadau
- cariad a rhamant

**3. Awgrymiadau am gwestiynau eraill.**

- Yn yr olygfa yn ffreutur yr ysgol ar ddechrau'r ddrama mae Rhys ac Els yn sgwrsio. Beth ydy Barn Rhys am Wes?
- Yn iard yr ysgol mae Wes yn siarad ag Els. Beth mae Els yn ei ddweud am ei thad?
- Sut ddarlun ydyn ni'n ei gael o dad Rhys?
- Mae Wes a Rhys yn cweryla ar iard yr ysgol. Mae Wes yn dweud *'wel, ydy dy dad yn dy fwrw di?'* Beth sydd wedi digwydd?
- Trafodwch un o'r golygfeydd allweddol yn eich barn chi.
- Dadansoddwch y gwrthdaro rhwng y cymeriadau.
- Trafodwch ofnau'r tri chymeriad yn y ddrama.
- Pa olygfa yw'r uchafbwynt yn eich barn chi?
- Trafodwch gymeriadau Wes a Rhys gan fanylu ar bersonoliaethau gwahanol y ddau.

© WJEC CBAC Cyf.

- Ai disgwyliadau rhieni yw un o brif themâu'r ddrama?
- Trafodwch ddiweddglo penagored y ddrama.
- Trafodwch yr hiwmor yn y ddrama.
- Sut, yn eich barn chi, mae'r awdures yn llwyddo i ddal sylw'r gynulleidfa tan ddiwedd y ddrama?
- Ydy'r ddrama yn delio â themâu sydd yn bwysig i bob oes?
- Ydy'r ddrama yn cynnig atebion i broblemau'r cymeriadau?
- Trafodwch yr iaith a ddefnyddir yn y ddrama.
- Wrth sgwrsio mae Els yn dweud wrth Rhys *'Dwi ddim isie dy weld ti 'to.'* Beth sydd wedi digwydd?
- Yn y disgo pam mae Wes ac Els yn cweryla? Mae Wes yn dweud *Dwi wedi cael digon.* Pam mae'r berthynas rhyngddynt wedi newid.

Awgrymiadau'n unig yw'r rhain. Disgwylir i ymgeiswyr fynegi eu barn eu hunain ond rhaid cyfiawnhau barn â thystiolaeth o'r testun.

**C. Ymateb i gwestiynau ar themâu penodol (synoptig)**

Enghreifftiau o gwestiynau posibl i agor trafodaeth rhwng yr arholwr a'r ymgeisydd.

- Beth yn eich barn chi yw themâu pwysicaf y ddrama *Crash*? Trafodwch unrhyw lenyddiaeth a ddarllenoch chi sy'n delio â'r themâu hyn.
- Wrth drafod y ddrama *Crash* dywedoch chi mae yn eich barn chi y brif thema yw cariad a rhamant / cyfrifoldebau pobl ifanc / gwrthryfela / effeithiau cyffuriau ac alcohol / perthynas cyfoedion â'i gilydd / diffyg cyfathrebu rhwng pobl ifanc a rhieni. Ydy'r thema hon mewn unrhyw lenyddiaeth / lunyddiaeth arall a welsoch?

© WJEC CBAC Cyf.

# Crash

Cymeriadau

Elin

*ELS (ELIN): MERCH SY BRON YN 16 OED. O DEULU CEFNOGOL.*

## Anghenus?

Ar ddechrau'r ddrama, mae Elin yn ymddangos fel merch mewn sefyllfa anffodus a pheryglus. Mae hi wedi cysgu ar lawr mewn fflat, ac mae hi'n dweud fod Wes, ei chariad, wedi ei gwthio hi i'r dŵr. Mae hi hefyd yn ymddangos yn anghenus iawn, ac yn benderfynol fod Wes yn ei charu:-

*"Ti'n fy ngharu i 'fyd!... Dwi'n gwybod dy fod ti."*
*(tudalen 16 – golygfa 1)*

## .Rhamantu?

Mae tuedd gan Elin i ramantu, fel y gwelwn yng ngolygfa 1 pan mae hi'n trafod y môr. Mae hi'n disgrifio boddi fel hyn:-

*"Y dŵr yn gynnes o dy amgylch di."*
*(tudalen 11 – golygfa 1)*

Mae'r duedd yma'n parhau drwy gydol y ddrama, er enghraifft yng ngolygfa 9 pan mae hi'n trafod y nefoedd:-

*"Hardd. Pluog. Meddal"*

## Perthyn?

Mae Elin yn aml yn teimlo fel cymeriad sydd yn ansicr o'i lle mewn cymdeithas, ac,yn wir, o'i lle ymysg ei theulu a'i ffrindiau.

Am ei pherthynas gyda'i rhieni, mae hi'n dweud:-

*"Fi byth yn mynd i allu plesio Mam a Dad."*
*(tudalen 12 - golygfa 1)*

Er ei bod hi'n gwybod am gefndir anodd Wes, mae hi'n cyfeirio ato fel

## Cwestiynau am Elin

Pam fod Elin yn hoffi'r syniad o fod mewn perthynas gyda rebel?

Sut mae Elin yn newid yn ystod y ddrama? Cymharwch ei chymeriad hi yn yr olygfa gyntaf a'r olygfa olaf.

Dydy rhieni Elin ddim yn cael eu gweld yn y ddrama. Pa fath o bobl ydych chi'n meddwl ydyn nhw?

Ydych chi'n gweld tebygrwydd rhwng sefyllfa deuluol Wes a sefyllfa deuluol Elin?

Ydych chi'n meddwl fod Elin yn deg wrth alw ei rhieni yn "thought police" ac yn "control freaks"?

# Cymeriadau

Rhys

*RHYS: BACHGEN SY BRON YN 16 OED. CYDWYBODOL. O DEULU CEFNOGOL. DDIM YN DENAU. FFRIND DA I ELIN.*

## Ei rieni?

Fel yn achos Elin, dydy'r gynulleidfa ddim yn gweld rhieni Rhys, ond mae llawer o sôn amdanyn nhw yn y ddrama. Mae'n ymddangos fod Rhys yn edmygu ei dad yn fawr, gan ei fod e'n sôn am y ffordd y mae e'n gyrru'n gyflym:-

*"Ti 'di gweld dad fi'n dreifio? Briliant!"*
*(tudalen 18 – golygfa 2)*

Mae e hefyd yn awgrymu ei fod am efelychu ei dad, wrth ddweud ei fod e eisiau Subaru Impreza, a phan mae e'n sôn wrth Elin:-

## Gwahanol?

Mae Rhys yn siarad mewn ffordd wahanol i'r cymeriadau eraill. Yn wahanol i Elin a Wes, mae e'n siarad gydag acen ogleddol, ond mae e'n tueddu i siarad yn od.
Mae e'n galw ffordd yn "**wibbly wobbly way**" (*tudalen 17 – golygfa 2*) ac yn dweud wrth Elin "**Digon teg Chocolate Chip**" (*tudalen 20 – golygfa 2*).
Mae Rhys yn gwneud rhai symudiadau annisgwyl hefyd. Mae e'n symud fel dawnswraig (*tudalen 19 – golygfa 2*) ac yn gwneud symudiadau ioga (*tudalen 20 – golygfa 2*).
Pam fod Rhys yn siarad ac yn ymddwyn yn rhyfedd? Beth mae hynny'n ei ddangos am ei gymeriad?

## Swot?

Mae'n amlwg drwy gydol y ddrama fod Rhys yn gweithio'n galetach nag Elin yn yr ysgol, a'i fod e o ddifrif am ei addysg. Mae mewn panig llwyr pan mae e'n colli gwaith ar ei gyfrifiadur, a phan mae e'n gofyn i Elin am gael benthyg ei gwaith hi:-

*"Wna i 'neud beth bynnag ti isio. I'll be your slave!"*
*(tudalen 31 – golygfa 4)*

Mae e'n canolbwyntio'n llwyr ar yr arholiadau:-

## Snob?

Weithiau, bydd Rhys yn swnio braidd yn snobyddlyd wrth drafod Wes. Mae e'n dweudwrth Elin y bydd Wes "**ar benefits**", yn y carchar a heb arian.
Pan fydd Wes a Rhys yn cael eu sgwrs go iawn gyntaf, mae Rhys yn amlwg yn teimlo ei fod e'n wahanol iawn i Wes. O gofio dydy Wes ddim yn byw gyda'i deulu, mae'n ansensitif pan fydd Rhys yn dweud:-
*"Ti'm yn gwbod be di cariad... No offence, de, ond sut allet ti?"*
*(tudalen 58 – golygfa 10)*

Ydych chi'n meddwl fod Rhys yn snob? Pam?

## Gorfwyta?

Mae'r gynulleidfa yn gweld Rhys am y tro cyntaf mewn ffreutur yn gorfwyta, ac mae hyn yn cael ei ddangos dro ar ôl tro yn y ddrama. Mae'r disgrifiad ohono gan y dramodydd ar ddechrau'r ddrama yn dweud "**Ddim yn denau**".
Mae e'n dweud mewn e-bost at Elin:-

*"Dwi'n meddwl 'mod i'n bulimic- jysd bo fi'm yn gwneud y chwydu bit."*
*(tudalen 38 – golygfa 7)*

Mae un rhan o'r ddrama yn dangos bod Rhys yn ddihyder. Pan fydd Wes yn awgrymu bod rhywbeth yn fwy na chyfeillgarwch rhwng Rhys ac Elin, mae Rhys yn dweud:-

## Cwestiynau am Rhys

Ydych chi'n meddwl fod Rhys yn hapus?

Sut effaith mae perthynas Rhys gyda'i dad wedi ei gael ar ei fywyd?

Ydych chi'n hoffi cymeriad Rhys? Pam? Pam ddim?

# Cymeriadau

Wes

*WES: BACHGEN O GEFNDIR ANODD, SY BRON YN 16 OED.*

## Teulu?

Mae Wes yn wahanol i'r cymeriadau eraill achos ei fod e'n dod o gefndir gwbl wahanol. Dydy e ddim yn byw gyda'i deulu, a does dim cefnogaeth gyda fe fel sydd gyda Rhys ac Elin.Mae'r gynulleidfa'n dod i wybod llawer am gefndir Wes gan y cymeriadau eraill. Maen nhw'n dweud ei fod e wedi cael amser caled, a'i fod e wedi cael ei symud o le i le. Wrth siarad amdano fe gyda Rhys, mae Elin yn dweud:-

*"Ma' fe jest mor glefer â ti!"*
*(tudalen 19 – golygfa 2)*

Ychydig iawn mae Wes yn ei ddweud am ei gefndir ei hun, ond mae'r hyn mae e'n ei ddweud yn profi ei fod wedi dioddef yn enbyd.

*"Benes i lan yn casualty un tro ar ôl i Dad wylltio."*
*(tudalen 24 – golygfa 3)*

Mae Wes hefyd yn cyfaddef i Rhys nad oes ganddo brofiad o fywyd gyda rhieni:-

**Rhys :**Yeah. Ond mae rhieni pawb yn obsessed efo arholiadau, dydyn?

**Wes :**Dwi ddim yn gwybod, ydw i?"
*(tudalen 56 – golygfa 10)*

Mae Wes yn cadarnhau ei fod e wedi dioddef pan mae e'n dweud:-

*"Ma' 'da fi'r math o rieni fyddet ti ddim hyd yn oed yn gallu dychmygu!"*
*(tudalen 57 – golygfa 10)*

Mae'n ddiddorol fod Wes yn dweud y pethau hyn wrth Rhys ac nid wrth Elin. Efallai ei fod e'n teimlo fod cefndir Rhys yn wahanol iawn i'w gefndir ei hun, ac fyddai Elin ddim angen gymaint o esboniad gan ei fod e'n meddwl ei bod hi o gefndir tebyg. Mae rhai esiamplau o Wes yn ceisio creu teulu newydd iddo'i hun. Mae e'n dweud:-

Cymeriadau

*"Ry'n ni fel teulu nag y'n ni? Y bois a fi."* *(tudalen 47 – golygfa 9)*

Mae e'n sôn am y posibiliad o greu teulu gydag Elin hefyd. Pan mae e'n meddwl ei bod hi ar fin dweud wrtho fe ei bod hi'n feichiog, mae e'n dweud:-

*"Bydde fe'n OK! Fyddwn i ddim yn becso. Fi isie lot o blant."*
*(tudalen 51 – golygfa 9)*

I ba raddau ydych chi'n meddwl fod Wes yn chwilio am deulu newydd?

## Cariad a Rhyw?

Ar ddechrau'r ddrama, mae'n ymddangos fod gan Wes fwy o ddiddordeb mewn rhyw na chariad. Mae e'n closio at Elin am y tro cyntaf pan mae e'n gobeithio am agosatrwydd corfforol- (*tudalen 10 – golygfa 1)*.

Pan mae Elin yn dweud wrtho fe ei bod hi'n ei garu, dydy Wes ddim yn dweud yr un fath, er ei fod e dan bwysau i wneud hynny.Mae modd dadlau fod Wes yn rhoi pwysau ar Elin i gysgu gyda fe. Wrth drafod gallai'r ddau fynd i gartref Ben neu gartref Steve, mae Wes yn dweud:-

*"Ni yn serious, nag y'n ni?"*

## Cwestiynau am Wes

Ydych chi'n meddwl fod Wes yn agored am ei deimladau?

Beth sy'n atyniadol am Elin i Wes?

Beth ydych chi'n meddwl ydi gwir deimladau Wes am ei fywyd ei hun?

## Perthynas Wes ac Elin

Mae'r ddrama'n dechrau gydag Elin yn dweud fod Wes wedi ei hachub hi o'r môr y noson gynt, er ei bod hi wedyn yn dweud mai fe oedd wedi ei gwthio hi i'r dŵr. Mae Elin yn dweud yn bendant:-

*"Achubest ti fi"* *(tudalen 8 - golygfa 1)*

Oherwydd dydy Wes ddim yn cofio dim am hyn, mae modd dadlau fod Elin un ai yn rhamantu am y sefyllfa ac am Wes, neu ei bod hi wedi camarwain Wes am yr hyn a ddigwyddodd. Mae Elin yn dweud sawl tro ei bod hi'n meddwl ei bod hi'n debyg i Wes, yn enwedig yn ystod y sgyrsiau am ei rhieni:-

*"Ry'n ni MOR debyg."* *(tudalen 13 – golygfa 1 )*

Mae'n ymddangos i'r gynulleidfa fod bywydau gwahanol iawn gan Elin a Wes, felly mae'n werth meddwl os ydy hyn yn wir.

Mae modd dadlau fod Elin yn hoffi rheoli'r berthynas, a'i bod hi'n hunanol yn ei pherthynas gyda Wes. Mae Wes yn dweud wrthi:-

*"Pam mae popeth bob amser amdanat ti?"* *(tudalen 35 – golygfa 6)*

Er bod cefndir teuluol anodd iawn gan Wes, rydyn ni'n clywed llawer mwy am rieni Elin yn ystod y ddrama. Mae modd dadlau hefyd fod Elin yn ceisio gwthio ei hun i fywyd Wes:-

**Elin :** Mae 'da ti deulu.
**Wes :** Pwy? Mam

Er bod Wes yn swnio'n eithaf di-hid am y berthynas ar ddechrau'r ddrama, mae'n dod yn glir beth mae e'n teimlo ydy ei gyfrifoldebau fel cariad Elin:-
*"Fi'n mynd i sortio'i thad hi ma's os yw e'n cyffwrdd yn Elin 'to."*
*(tudalen 55 – golygfa 10)*

Mae Wes eisiau cymryd gofal o Elin a gwneud yn siŵr bod hi ddim yn cael ei brifo, a hynny, efallai, achos ei fod e'n gweld ei sefyllfa hi'n debyg i'w sefyllfa ef ei hun.

Mae Elin yn dweud fod Wes wedi ei gwthio i'r môr ac yna wedi ei hachub, ond does dim cof gyda Wes am hyn.

Ydych chi'n credu stori Elin?

Pam fysai hi'n dweud celwydd am hyn?

# Perthynas Elin a Rhys

**Rhys :**
So be sy gynno fo sy gen i ddim?
**Els :**
Pwy? Dy Dad?
**Rhys :**
O! Ych! Gross Els. Naci! - Wesley!
**Els :**
Corff sexy

*(tudalen 18 - golygfa 2)*

Mae'r olygfa yma yn gynnar yn y ddrama, ac mae'n dweud llawer am berthynas Elin a Rhys.

Mae Rhys yn cymharu ei hun gyda Wes, ac wrth wneud hynny mae e fwy neu lai yn cyfaddef ei fod yn ffansïo Elin.

Mae ymateb Elin yn greulon, gan ddweud does dim "corff sexy" gyda Rhys.

Edrychwch ar olygfa 7 *(tudalennau 38-39)*.

Yma, mae Rhys yn ysgrifennu e-bost at Elin gyda gwaith y mae hi wedi ei golli drwy beidio â mynd i'r ysgol. Mae Rhys yn datgan ei wir deimladau tuag at Elin yma gydag anwyldeb a charedigrwydd. Ond dydy e ddim yn danfon y rhannau o'r e-bost sy'n datgan ei wir deimladau.

Mae Elin yn wirioneddol greulon gyda Rhys weithiau.
Er ei bod hi'n gwybod faint o edmygedd sydd gan Rhys at ei dad, mae hi'n dweud:

**Elin :** O, fi'n gwybod nawr pam mae dy dad di'n gyrru
mor gyflym! Falle fod e'n gobeithio fydd e'n mynd
syth mewn i'r tractor 'na lawr hewl chi rhyw ddydd.
Ar sbîd! Fel bod e byth yn gorfod gwrando ar dy
lais *stupid* di byth eto!

**Rhys :** (WEDI'I FRIFO) Get lost, Elin. (CURIAD) Els wyt ti'n
OK?
*(tudalen 42 – golygfa 8)*

Er bod Elin wedi dweud peth cas iawn wrth Rhys yma, mae e'n dal i boeni amdani hi. Mae Elin yn ymateb yn eithafol pan fo Rhys yn dadlau gyda hi am Wes ac am ei agwedd tuag at ei rhieni.
Mae hi'n dweud yr hyn y mae hi'n gwybod bydd yn brifo Rhys:-

*"Ti'n genfigennus ohona i a Wes achos fydde neb byth yn dy ffansïo di! Geek!"*
*(tudalen 46 – golygfa 8)*

Edrychwch ar olygfa 13 *(tudalen 66)*.

Mae Elin yn ffonio Rhys pan mae hi'n teimlo ei bod hi angen help, ac mae hi'n disgwyl i Rhys ddod ati hi er ei bod hi'n gwybod y bysai hynny yn rhoi Rhys mewn perygl. Mae hyn yn awgrymu mai Elin sydd yn rheoli'r cyfeillgarwch yma, a'i bod hi'n gwybod ei bod hi'n gallu dibynnu ar Rhys i ddod i'w hachub.

## Cwestiynau am berthynas Elin a Rhys

Ystyriwch berthynas Rhys ac Elin.

Pam fod y ddau yn ffrindiau?

Mae Elin yn aml yn greulon gyda Rhys.

Pam ei fod e'n dal i fod yn ffrindiau gyda hi?

Ydych chi'n meddwl fod Elin yn debycach i Wes neu Rhys? Pam?

Ydych chi'n meddwl fod Elin yn ffrind da i Rhys?

Ydych chi'n meddwl fod Rhys yn ffrind da i Elin?

## Perthynas Rhys a Wes

Does dim llawer o gysylltiad rhwng Wes a Rhys yn y ddrama, ac mae'r ddau'n cael eu portreadu fel cymeriadau gwahanol iawn i'w gilydd, yn eu bywydau bob dydd ac yn eu hagweddau tuag at Elin.

Mae agwedd Rhys tuag at Wes yn greulon ac yn snobyddlyd.
Mae e'n dweud wrth Elin sawl tro bod dim gobaith gan Wes am ddyfodol disglair.
Ond mae'n ymddangos hefyd fod Rhys ofn Wes, gan ei fod e'n diflannu'n gyflym pan fydd Wes yn dweud "Get lost!" wrtho fe (*tudalen 23 – golygfa 3*).

Mae agwedd Wes at Rhys yn greulon hefyd; mae e'n cyfeirio ato fe fel
"fatso" *(tudalen 54 – golygfa 10)* ac fel
"posh git" (*tudalen 53 – golygfa 9*).

Mae Wes yn gweld Rhys fel bygythiad i'w berthynas gydag Elin, a does dim yn y ddrama sy'n awgrymu ei fod e'n hoffi Rhys o gwbl.

Ar y llaw arall, mae Wes yn credu Rhys pan mae e'n dweud dydy Elin ddim wedi cael ei churo gan ei thad, felly mae modd dadlau ei fod e'n gwybod fod Rhys yn gymeriad gonest.

Beth sydd gan Wes a Rhys yn gyffredin? Beth sy'n wahanol amdanyn nhw?
Ydych chi'n meddwl fod Wes a Rhys yn eiddigeddus o'i gilydd? Ym mha ffordd?

# Themâu

## Crash

Mae gan deitl y ddrama sawl ystyr. Mae Elin yn dweud yn y dechrau:-
*"Crashest ti!"*
*(tudalen 5 – golygfa 1)*

Mae Wes yn teimlo panig ar ôl clywed hyn, gan feddwl ei fod e wedi cael damwain car,ond mae Elin yn golygu "crash" yn yr ystyr ei fod e wedi cysgu yn nhŷ rhywun.

Yn ogystal â hyn, mae Rhys yn dweud fod ei gyfrifiadur wedi "crasho" (tudalen 29 – golygfa 4), ac i Rhys, mae hyn yn golygu colli llawer o waith sy'n bwysig iddo ef.

Er dydy e ddim yn cael ei ddweud yn amlwg yn y ddrama, gall y gair crash gyfeirio at iselder neu ddigalondid ar ôl cymeryd cyffuriau neu yfed gormod o alcohol, sydd, o bosib, yn arwain at ddiweddglo dramatig y ddrama.
Yn y rhan yma, hefyd, mae'r ddelwedd o grasho yn amlwg wrth i Wes ddychymyg sut y byddai'r papurau newydd yn adrodd yr hanes petai e ac Els yn neidio o'r graig:-
*"Today, two bodies were swept ashore by crashing waves."*
*(tudalen 76 – golygfa 15)*

Ydych chi'n meddwl fod y ddelwedd o grash yn cael ei defnyddio mewn ffordd negyddol bob tro yn y ddrama?

Beth ydych chi'n meddwl ydy'r brif thema yn y ddrama?

## *Glasoed/ problemau arddegwyr*

*"Pubes, acne, plus rhieni sy'n colli'r plot. Grêt bod oed ni dydi?"*
*(tudalen 21 – golygfa 2)*

Mae'r trafferthion a'r anawsterau o fod mewn glasoed yn brif thema yn y ddrama. Mewn gwahanol ffyrdd, mae'r tri cymeriad yn ymdrechu i ymateb i'r pwysau sydd wedi cael ei roi arnyn nhw gan gymdeithas.

Mae arholiadau a'r pwysau i wneud yn dda yn academaidd yn cael ei grybwyll yn aml.
Mae Elin yn dweud:

*"'Sdim byd yn bwysig i Mam a Dad, dim ond beth dwi'n mynd i'w wneud pan fi'n tyfu lan."*
*(tudalen 21 – golygfa 2)*

Mae'r frawddeg yma gan Elin yn rhoi'r argraff bod ei rhieni hi'n canolbwyntio ar ei dyfodol yn hytrach na'i phresennol.

Mae hyn yn cael ei bwysleisio eto:-

*"Maen nhw'n meddwl 'u bod nhw'n berchen arna i. Fod 'da nhw'r hawl i benderfynu popeth. Sdim llonydd i'w gael."*
*(tudalen 35 – golygfa 6)*

Ydy'r portread o bwysau ar bobl ifanc yn real yn y ddrama?
Ydych chi'n meddwl fod pwysau annheg ar Rhys ac Elin?

## Perthynas pobl ifanc â'u rhieni

Mae Elin yn disgrifio'i rhieni fel "control freaks", ond er bod gyda Wes berthynas llawer gwaeth gyda'i rieni e, dydy e ddim yn sôn amdanyn nhw mor aml.
Yn wir, mae e'n dweud wrth ei weithiwr cymdeithasol ar y ffôn:-

*"Why can't I go back to my old man's house then?"*
*(tudalen 33 – golygfa 5)*
Mae e'n dweud hyn er ei fod e wedi gorfod ymweld â'r ysbyty yn y gorffennol yn sgil tymer ei dad. Mae Wes yn datgelu ei deimladau tuag at ei rieni yn yr olygfa olaf, wrth ystyried neidio o Graig yr Wylan:-

*"Tybed fydde Mam a Dad yn ei weld e?... Tybed fydden nhw'n becso?"*

Mae perthynas Rhys gyda'i fam a'i dad yn wahanol eto.
Mae e'n dangos edmygedd mawr tuag at ei dad am yrru'n gyflym, ac mae e'n ufudd ac yn garedig gyda'i fam (*golygfa 14, tudalen 72*).
Ond eto, mae awgrym fod tad Rhys yn gallu bod yn gas.
Wrth drafod gyrru, mae Rhys yn dweud am ei dad:-

*"O'dd Dad yn rhoi loads o abuse i'r dreifar!"*
*(tudalen 18 – golygfa 2)*

Mae sawl awgrym fod tad Rhys yn treulio llawer o amser oddi cartref, ac efallai ei fod e'n mercheta. Mae Elin yn gofyn:-

*"Ydy e ar y pull ta beth?"*

Ydych chi'n meddwl fod gan Rhys berthynas dda gyda'i rieni?
Mae Elin yn cwyno am ei rhieni'n llawer amlach na Rhys a Wes, er ein bod ni'n gwybod fod problemau gyda'r bechgyn gyda'u rhieni.
Beth ydy eich barn chi am hyn?

## Cariad a Pherthynas Gorfforol

Mae gwahaniaeth amlwg yn y ffordd mae Wes ac Elin yn teimlo am ryw.
Yn yr olygfa gyntaf, gwelwn Wes yn pryfocio a goglais Elen, ac ar ôl clywed ei fod e

wedi ei hachub hi o'r môr y noson gynt, mae e'n dweud:-

*"Nag yw arwr yn haeddu gwobr?"*
*(tudalen 13 – golygfa 1)*
Ar y llaw arall, gwelwn Elin yn ceisio osgoi agosatrwydd corfforol gyda Wes:-
*"Wes! Na! Paid, OK!"*
*(tudalen 15 – golygfa 1)*
Dydy'r gynulleidfa ddim yn gweld agosatrwydd corfforol rhwng Elin a Wes o gwbl, ond dydy hynny ddim yn wir am Elin a Rhys.

Ar ddechrau'r ddrama, mae Elin yn ymddangos braidd yn naïf ac anaeddfed wrth drafod cariad:-

**Els :** Ti'n cŵl. (CURIAD) Dwi'n dy garu di.
**Wes :** Yeah?
**Els :** Ac?
SAIB. DYDY WES DDIM YN YMATEB.
(YN BENDERFYNOL) Ti'n fy ngharu i 'fyd!
**Wes :** Yeah?
**Els :** Dwi'n gwybod dy fod ti.

Mae Wes yn dweud wrth Elin ei fod e'n ei charu hi am y tro cyntaf pan mae e'n ceisio ei pherswadio i ddod i gartref Ben.
Mae'n cael ei awgrymu mai mynd yno i gael perthynas gorfforol fyddai Wes ac Elin, ac felly efallai fod Wes yn cysylltu perthynas gorfforol gyda chariad mewn ffordd fwy amlwg na'r cymeriadau eraill.

Mae Rhys yn dangos agwedd eithaf snobyddlyd wrth drafod cariad gyda Wes:-
**Wes :** Mae hi'n fy ngharu i!
**Rhys :** Meddwl 'i bod hi.
**Wes :** A dwi'n ei charu hi!
**Rhys :** (YN SYNNU) No way!
**Wes :** Beth?
**Rhys :** No offence de, ond sut allet ti?"

Mae hyn yn dangos fod Rhys yn meddwl fod rhaid i rywun fod wedi derbyn cariad er mwyn caru, a'i fod yn meddwl fod teimladau Wes yn annilys oherwydd ei gefndir.

Ydy Elin yn teimlo'n fwyaf cyffyrddus yng nghwmni Rhys neu Wes? Pam?
Dydy Wes ddim wedi cael llawer o gariad yn y gorffennol. Mae Rhys yn dweud fod hyn yn golygu dydy Wes ddim yn gwybod beth ydy cariad.

Ydych chi'n cytuno gyda Rhys?

Ydy Wes a Rhys yn caru Elin?

# Symbolau

## Cyflymder

Er bod y symbol o gyflymder yn fwy perthnasol i gymeriadau Wes ac Elin, Rhys sy'n sôn amdano fe gyntaf wrth ddisgrifio ei dad yn gyrru:-

*"Ti 'di gweld dad fi'n dreifio? Brilliant. 0 to 60 in a chwinciad chwannen."*
*(tudalen 18 – golygfa 2)*

Gan fod tad Rhys yn cael ei bortreadu fel dyn sy'n teithio'n aml, ac yn treulio llawer o amser heb ei deulu, mae cyflymder yn y cyd-destun yma yn symbol o ryddid.

Ar ôl bod mewn car cyflym gyda Wes, mae Elin yn disgrifio'r teimlad fel:-

*"Ma' fe'n buzz Rhys!"*
*(tudalen 40 – golygfa 8)*
Mae Elin hefyd yn sôn mor flin y bysai ei rhieni pe tasen nhw'n gwybod am hyn, ac felly mae cyflymder yn symbol o wrthryfela yn erbyn rhieni.

Efallai mai Wes sydd yn disgrifio effeithiau cyflymder ar ei feddwl yn fwyaf effeithiol. Yng ngweddill y ddrama, mae ei frawddegau yn tueddu i fod yn fyr, ond ar dudalen 70, mae disgrifiad eithaf hir o sut mae e'n teimlo i rasio'n gyflym:-

**Wes :**Yn gyflym! Rili cyflym. Lawr y main drag. Sounds arno full blast. Pobl ar eu ffordd adre'n syllu. (YN GWEDDI) 'Ma's o'r ffordd. Ma's o'r ffordd, OK?' Llaw lawr yn galed. Corn yn canu. Cops? Rhywun? (YN GWEDDI) 'Come on. Come on! Ble y'ch chi? Gwnewch rywbeth! Unrhyw beth! Stopwch fi wnewch chi!' Handbrake turn. Brêcs yn sgrechen. Reit ar waelod y dre'. Reit fan'na. Stopo. (YN GWEIDDI) 'Come on!' Neb. 'Dwi 'ma! Yn aros! Fe wna i eich rasio chi!' Neb. Refio'r injan. Rwber yn llosgi. 'Sneb yn cymryd unrhyw sylw. Does neb yn dod. Does neb yn becso.

Mae angen ystyried cyffuriau yma hefyd. Mae cyfeiriad yn y ddrama at y ffaith fod Elin wedi cymryd y cyffur speed:-

**Wes :**
Ddim wedi bwyta ers dyddie wyt ti? Speed sy'n gwneud 'na i ti. Ma'r diwrnod wedyn yn crap.

Mae hyn yn cyfeirio at y cyffur ac at y teimlad ar ôl dwyn car er mwyn rasio.

Mae teitl y ddrama, Crash, yn symbolaidd, ac mae'r gair yn cael ei ddefnyddio sawl tro wrth gyfeirio at nifer o wahanol themâu'r ddrama. Mae'r ddrama'n dechrau gydag Elin yn dweud wrth Wes:-

*"Crashest ti."*
*(tudalen 5 - golygfa 1)*

Mae ymateb Wes i hyn yn ei gwneud yn amlwg ei fod e'n meddwl ei fod e wedi cael crash mewn car, ond mae Elin yn dweud ei fod wedi cysgu yn nhŷ ei ffrind.

Yn hwyrach yn y ddrama, mae hyn yn gwneud mwy o synnwyr, gan ei fod yn debyg fod Elin a Wes wedi bod yn rasio mewn car y noson gynt.

Mae'r thema o ddefnyddio "crasho" fel gair am gysgu yn nhŷ pobl eraill yn un sy'n berthnasol iawn i Wes, gan ei fod e, drwy gydol y ddrama, yn "crasho" yn nhai ffrindiau achos does dim cartref sefydlog gyda fe.

Yng ngolygfa 4 (*tudalen 28*) mae Rhys yn dod i'r ysgol mewn panig gan ei fod wedi colli ei waith. Unwaith eto, mae'r gair "crash" yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun gwbl wahanol:-

*"Crasho wnaeth o... Dwi'n deud 'that ti! Y cyfrifiadur. Crasho."*
*(tudalen 31 – golygfa 4)*
Mae'r gair yn cael ei ddefnyddio yma i olygu fod y cyfrifiadur wedi colli ei waith cartref i gyd.
Yng ngolygfa 13, mae Elin yn defnyddio'r gair "crash" i gyfleu ei bod hi'n teimlo iselder dwys:-

*"Ma' popeth yn crasho lawr rownd fy mhen i."*

Mae golygfa 13 hefyd yn dangos Wes ar ôl iddo fe gael crash mewn car, sydd yn symbol o'r ffaith ei fod e ddim yn edrych ar ôl ei hun nac yn poeni llawer am ei ddiogelwch ei hun.

Mae Rhys yn dychmygu cael crash mewn car wrth ystyried mynd i Graig yr Wylan at Elin yng ngolygfa 14 (*tudalen 72*). Mae'r ffaith ei fod e'n adnabod y perygl y bysai'n crasho gyda char ei dad ar y ffordd, a'i fod e'n dal yn ystyried mynd, yn profi ei fod e'n teimlo cyfrifoldeb mawr am Elin.

## Y môr

Mae'r môr yn symbol sydd yn ymddangos ar ddechrau a diwedd y ddrama, ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddangos y newid yng nghymeriadau Wes ac Elin.

Yn yr olygfa gyntaf, mae Elin yn sôn am y môr mewn termau rhamantus, plentynnaidd:-

*"Byddwn i'n hoffi byw o dan y môr. Fyddet ti? Môr-forwyn. 'Na beth hoffwn i fod."*
*(tudalen 11 – golygfa 1)*

Dydy Wes ddim yn ymuno yn y math yma o siarad, gan dueddu tuag at dynnu coes am y pwnc.

Mae hyn yn newid erbyn diwedd y ddrama.
Pan fydd Wes yn gorffen ei berthynas gyda hi, mae Elin yn dychwelyd i Graig yr Wylan ac yn ffonio Rhys. Mae hi'n siarad am y môr mewn ffordd sy'n adleisio golygfa 1:-

*"Ydy'r môr yn cysgu weithie Rhys? Dwi 'di blino."*
*(tudalen 67 – golygfa 13)*

Fodd bynnag, pan mae Wes yn dod ati, mae yntau'n rhoi delwedd afreal a rhamantus am neidio o'r graig i'r dŵr:-

*"I mewn i'r tonnau cynnes 'na!"*
*(tudalen 76 – golygfa 15)*

## Angylion

Mae'r ddelwedd o angylion yn un sy'n cael ei atgyfnerthu sawl tro mewn sawl golygfa.

Ar dudalen 48, mae Elin wedi prynu angel bach am bunt ac mae hi'n esbonio wrth Wes:-

*"Os wyt ti'n ei wisgo fe, mae e'n dy warchod di."*
*(tudalen 48 – golygfa 9)*

Mae ymateb Wes i hyn yn dangos y gwahaniaeth rhwng y ddau gymeriad; mae e'n gofyn os oes diafol ar gael.
Mae hefyd yn sôn am yr angel fel "bodyguard" yn hytrach na rhywbeth mwy rhamantus, sy'n awgrymu bod Elin yn fwy o freuddwydiwr a Wes yn fwy ymarferol.

Yn yr olygfa yn y parti sy'n dechrau ar dudalen 62, mae Elin wedi gwisgo fel angel. Mae'r ffaith ei bod hi wedi bod yn yfed fodca, ac yn ffraeo gyda Rhys a Wes yn yr olygfa yma, yn gwrthgyferbynnu gyda'r hyn mae hi'n ei wisgo.
Dydy Elin ddim yn ymddwyn yn angylaidd o gwbl.

Mae Elin yn dal i wisgo'r wisg angel yng ngolygfeydd olaf y ddrama ar Graig yr Wylan,ac mae Wes yn cyfeirio yn ôl at eiriau y dywedodd hi yn gynt yn y ddrama wrth gyfeirio at y nefoedd:-

*"Lle hardd, pluog, meddal lan 'na wedest ti!"*
*(tudalen 76 – golygfa 15)*

Mae hyn yn gorfodi Elin i wynebu realiti'r sentimentaleiddio y gwnaeth hi ynglŷn ag angylion yn gynharach yn y ddrama.

# Elfen Synoptig

Mae'n bosib cymharu rhai elfennau o Crash gyda dramâu, ffilmiau, llyfrau, rhaglenni teledu, cerddi neu ganeuon. Mae llawer o'r themâu a'r symbolau sydd yn y ddrama i'w gweld mewn nifer o waith creadigol.

Beth arall ar wahân i Crash sy'n sôn am y pethau canlynol?

Cariad
Bywydau pobl ifanc
Ceir
Rhieni
Y môr
Problemau gorfwyta

Edrychwch ar yr enghreifftiau ar y tudalennau nesaf.

## Mynegi Barn
## Cwestiynau posibl

Dyma rai esiamplau o gwestiynau am Crash, ac ymatebion posib.
Meddyliwch am sut y byddech chi'n ymateb i gwestiynau tebyg.
Mae Crash yn bortread teg o'r cymhlethdodau sydd ym mywydau pobl ifanc. Ydych chi'n cytuno gyda hyn?

"Rydw i'n meddwl fod Crash yn bortread da o fywyd pobl ifanc. Mae'n sôn am y math o bethau sydd yn poeni pobl fel ni: y pwysau i wneud yn dda mewn arholiadau a thrio mwynhau bywyd ar yr un pryd."

"Rydw i'n cytuno ar un llaw, mae rhai rhannau o'r ddrama yn portreadu cymhlethdodau ein bywyd mewn ffordd sy'n taro deuddeg. Ond yn bersonol, does gen i ddim profiad o gymryd cyffuriau na gyrru'n gyflym, felly roeddwn i'n ei chael hi'n anodd uniaethu gyda chymeriad Wes."

"Rydw i'n anghytuno am gymeriad Wes. Roeddwn i'n teimlo ei fod e'n ymateb i'r pethau ofnadwy oedd wedi digwydd iddo fe yn y gorffennol. Roeddwn i'n meddwl ei fod e'n gymeriad mwy hoffus nag Elin, oedd yn ymddangos yn hunanol ac yn greulon weithiau. Roedd hi'n f'atgoffa i o gymeriad Sioned ar Pobol y Cwm- wastad yn meddwl amdani hi ei hun."